**Adroddiad ar Wrandawiad y Pwyllgor Safonau**

**Mewn perthynas â chwyn yn erbyn y Cyng. Terence James o Gyngor Tref Conwy**

**Dyddiad y Gwrandawiad – 5 Tachwedd 2020**

Yn bresennol:

Aelodau o Bwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Iain Moore
Anne Mellor
Clive Wolfendale
Cyng Delyth McRae
Cyng Frank Bradfield

Yn y Gwrandawiad, clywodd y Pwyllgor Safonau gan:-

- ddau gynrychiolydd yr Ombwdsman;
- aelod o staff Cyngor Tref Conwy
- cynrychiolydd ar ran y Cyng. James
- cyn weithiwr Cyngor Tref Conwy
- Clerc Cyngor Tref Conwy a'r
- Cyng. Terence James

Cynhaliwyd y gwrandawiad o ganlyniad i Adroddiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsman") ar yr ymchwiliad i gwynion a wnaed yn erbyn y Cyng. James fel aelod o Gyngor Tref Conwy o dorri cod ymddygiad statudol y Cyngor ar gyfer aelodau.

Roedd yr honiadau fel a ganlyn:

(i) bod y Cyng. James wedi torri Paragraff 11(1) y Cod Ymddygiad ar 15 Ionawr, 26 Mawrth 2018, 29 Mai 2018, 14 Mehefin 2018, 25 Mehefin 2018, 6 Awst 2018, 3 Medi 2018 a 15 Hydref 2018 pan fethodd â datgan cysylltiad yn y cyfarfodydd hynny.

(ii) bod y Cyng, James wedi torri Paragraff 14(i)(a)(ii) y Cod Ymddygiad trwy beidio â gadael yr ystafell pan gynhaliwyd y cyfarfodydd uchod.

(iii) bod y Cyng. James wedi torri Paragraff 14(i)(c) a (d) y Cod Ymddygiad trwy geisio dylanwadu'r penderfyniad ar 14 Mehefin 2018 trwy wneud sylwadau ar lafar.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a'r sylwadau a wnaed gan yr holl bartïon, darganfu'r Pwyllgor bod gan y Cyng. James gysylltiad personol oedd yn rhagfarnu mewn materion staffio yn ymwneud â chyn aelod o staff ac aelod presennol o staff. Roedd hyn yn rhinwedd cwynion ac apeliadau parhaus a godwyd yn erbyn y Cyng. James ac aelod arall sydd hefyd yn aelod o Gyngor Tref Conwy.

Canfu’r Pwyllgor hefyd bod y Cyng. James wedi methu datgan cysylltiad personol oedd yn rhagfarnu yn yr holl gyfarfodydd y cyfeiriwyd atynt uchod, ac ar 14 Mehefin 2018, gwnaeth y Cyng. James sylwadau ar lafar gan geisio dylanwadu’r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod hwnnw.

Ystyriodd y Pwyllgor y sylwadau a wnaed gan gynrychiolydd y Cyng. James, bod y cyfarfod wedi cael ei gynnal er mwyn trafod materion ehangach o fewn y Cyngor Tref. Fodd bynnag, ar ôl ystyried Cofnodion y cyfarfod hwnnw a’r adroddiad a gyflwynwyd yn y cyfarfod, roedd yn amlwg bod yr adroddiad yn cyfeirio at y cwynion a drafodwyd yn y cyfarfod. Yn ogystal â hynny, roedd yn amlwg bod y cysylltiad oedd yn rhagfarnu yn ymestyn i drafodaethau o unrhyw faterion staffio oedd yn effeithio ar y rhai lle roedd anghydfod. Yn unol â hynny, dylai’r Cyng. James fod wedi datgan cysylltiad personol oedd yn rhagfarnu a gadael yr ystafell.

Daeth y Pwyllgor i’r casgliad bod yr holl honiadau uchod wedi’u profi ac felly bod y Cyng. James wedi methu â chydymffurfio â’r Cod Ymddygiad ar yr achlysuron hynny.

Roedd y Pwyllgor yn gweld y tor rheolau yn un difrifol gan nodi’r nifer a’r cyfnod hir lle ddigwyddodd hyn, yn ogystal â’r rhagfarn posibl oedd wedi digwydd yn sgil presenoldeb y Cyng. James yn y cyfarfodydd hynny. Yn ogystal â hynny, roedd y Pwyllgor yn teimlo nad oedd gan y Cyng. James ddealltwriaeth o’i weithrediadau a’r canlyniadau posibl.

Derbyniodd y Pwyllgor, yn ystod y cyfnod pan ddigwyddodd y tor rheolau, bod awyrgylch caotig o fewn y Cyngor Tref lle nad oedd y Cyngor Tref wedi dilyn y gweithdrefnau yn gywir o bosibl. Fodd bynnag, yn y pendraw, mae’r cyfrifoldeb i gydymffurfio â’r Cod Ymddygiad yn disgyn ar y Cyng. James ei hun.

Felly, penderfynodd y Pwyllgor y dylai’r Cyng. James gael ei wahardd o fod yn aelod o Gyngor Tref Conwy am gyfnod o fis. Mae’r Pwyllgor hefyd yn argymell yn gryf bod y Cyng. James yn cyflawni hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad cyn gynted â phosibl.

Daeth y gwaharddiad i rym ar 2 Rhagfyr 2020 a daw i ben ar 1 Ionawr 2021.